

Mae GWR yn cynnig gostyngiad ar docynnau Prynu Ymlaen Llaw ar gyfer ymwelwyr Diwrnodau Agored CBCDC sydd ar gael ar y rhan fwyaf o deithiau pellter canolig a hir GWR i'r rhan fwyaf o orsafoedd yn ninas Caerdydd. Mae'r cynnig hwn ar gael ar gyfer dyddiad y Diwrnod Agored CBCDC yn ogystal ag wythnos y diwrnod agored, o'r dydd Sadwrn i'r dydd Sul canlynol.

Dim ond drwy'r URL canlynol y gellir archebu'r tocynnau:

<http://tickets.gwr.com/gw/en/landing/promotion.aspx?id=RoyalWelsh&isAllowed=False>

AMODAU ARCHEBU

1. Mae cynnig teithio Diwrnodau Agored GWR dim ond ar gael ar gyfer teithio ar wasanaethau GWR. Os ydych chi'n teithio o, neu o fewn, rhanbarth o'r wlad sydd ddim yn rhan o rwydwaith GWR efallai y bydd angen i chi brynu tocyn gwahanol i Gaerdydd.
2. Rhaid i ddiwedd y daith fod yn berthnasol i CBCDC, e.e. Gorsaf Ganolog Caerdydd.
3. Rhaid i ddechrau'r siwrnai fod o fewn y **rhwydwaith GWR**, ond sylwer nad yw tocynnau Prynu Ymlaen Llaw ar gael ar gyfer siwrneiau byr.
4. Dim ond gyda thocynnau **Prynu Ymlaen Llaw** y gellir defnyddio'r cynllun. Ni ellir newid yr amseroedd a'r dyddiadau teithio a bennir ac ni ellir cael ad-daliad.
5. Mae cynnig teithio Diwrnodau Agored GWR ar gael ar gyfer dyddiadau Diwrnodau Agored CBCDC yn ogystal ag wythnos y diwrnod agored, o ddydd Sadwrn i'r dydd Sul canlynol.
6. Gellir cyfuno'r cynllun gyda Cherdyn Teithio 16-25 yn unig. Ticiwch y blwch ar y dudalen "Teithwyr" a dewiswch o'r gwymplen.
7. Mae'r URL yn unigryw i CBCDC ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer cyrchfannau eraill oni bai am Gaerdydd.

CWESTIYNAU CYFFREDIN / GEIRFA

C. Beth yw 'Tocyn Prynu Ymlaen Llaw'?

A. Mae 'Prynu Ymlaen Llaw' yn cyfeirio at docyn y gellir ei brynu hyd at 18:00awr (6pm) y diwrnod cyn teithio, yn amodol ar argaeledd. Unwaith fod y tocyn wedi'i brynu nid yw'n hyblyg (h.y. ni ellir newid amser na dyddiad y daith) ac ni ellir hawlio ad-daliad.

C. Alla'i ddim gweld y pris disgownt.

A. Dangosir 'Prynu Ymlaen Llaw' ar gyfer y pris myfyrwyr gan groes fechan wrth bris y tocyn. Os nad oes croes fechan i'w gweld, efallai bod tocynnau 'Prynu Ymlaen Llaw' ar gyfer y diwrnod hwnnw wedi gwerthu allan. Unwaith bod y pris â disgownt wedi'i ddewis dangosir seren '**' o dan yr adran prisiau.

C. Nid yw'r ddolen i'r dudalen archebu yn gweithio. Lle allaf gael cymorth?

A. Efallai y bydd angen i chi ddiweddarau eich porwr rhyngwyd, rydym yn cynghori defnyddio Google Chrome neu Firefox. Efallai y bydd angen i chi glirio eich 'cwcis'.

C. Alla'i ddim gweld y pris a hyrwyddir.

A. Dim ond ar deithiau GWR y gellir teithio, gwiriwch a yw eich taith gyfan ar GWR. Gwiriwch y gorwel archebu hefyd. Gellir Prynu Ymlaen Llaw 12 wythnos cyn teithio.

C. Alla'i yn dal ddim gweld nac archebu pris disgownt myfyrwyr.

A. Ffoniwch ganolfan alwadau GWR am gyngor ar 0345 700 0125, opsiwn 2, ac yna 2 eto.